# ARAITH YMADAWOL Y LLYWYDD, CYMDEITHASFA'R DE
# CAPEL Y CRWYS, CAERDYDD, 13 MAI 2014

Nid gormodiaith fyddai i mi ddweud y bu'n fraint aruthrol cael gweithredu fel Llywydd Cymdeithasfa'r De am y deuddeng mis diwethaf. Droeon gofynnais yn dawel bach: wyt ti'n deilwng o'r cyfrifoldeb a roddwyd arnat, yn dra ymwybodol o'r gweinidogion a'r blaenoriaid hynny a fu'n llenwi'r gadair hon o'm blaen? Carwn i chwi wybod fy mod wedi gwerthfawrogi'n fawr eich ymddiriedaeth ynof. Yn ystod blwyddyn fy llywyddiaeth cefais yr hyfrydwch o ordeinio blaenoriaid yn y tair henaduriaeth sy'n ffurfio Cymdeithasfa'r De. Cefais gyfle hefyd i ddwyn cyfarchion i gyfarfodydd o'r Gymdeithasfa yn y Dwyrain a'r Gogledd, yn ogystal â Chymdeithasfa'r Chwiorydd yn y De. Carwn ddiolch i lywyddion a swyddogion eraill y ddwy Gymdeithasfa, yn y Dwyrain a'r Gogledd, ynghyd â Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, am eu hynawsedd a'u cyfeillgarwch. Diolch hefyd i Ysgrifennydd y Gymdeithasfa yn y dalaith hon, sef y Parchedig Eifion Roberts, am bob cyngor a chymorth parod. Diolch i chithau hefyd, gyd-aelodau yn y Ffydd, am eich amynedd a'ch dyfalbarhad.

Rwy'n cofio i mi ddweud wrthych flwyddyn yn ôl mai fy nyletswydd cyntaf fyddai eich ysbrydoli. Dyna yw priod waith pob arweinydd, ond nid mater hawdd yw annog a chymell aelodau cyffredin yr Eglwys heddiw sy'n llawn amheuaeth ac ansicrwydd ynghylch y dyfodol. Yr hyn sy'n peri'r gofid mwyaf, fodd bynnag, neu a ddylai beri gofid, yw methiant yr Eglwys i ddylanwadu ar y byd o'i chwmpas. Anodd iawn y dyddiau hyn yw rhoi tolc go iawn ym mhlât dur arfwisg seciwlariaeth a materoliaeth. Er hynny, y mae gan yr Eglwys ddigon o adnoddau, yn arbennig felly mewn adeiladau a buddsoddiadau. Mae gan yr Eglwys hefyd lawer o weithwyr, rhwng yr enwadau gwahanol, ac yn sicr mae gennym fel Cyfundeb draddodiad a threftadaeth gyfoethog, ac eto rydym yn wan. Cofiwch, ni all neb ein maeddu am ddadansoddi a mynegi barn. Mae gennym ddigon o bwyllgorau! Fe ddywedodd rhywun fod yr Eglwys yn lle da am siarad, ond nid am weithredu effeithiol.

Darllenais hanesyn yn ddiweddar am ryw eglwys lle daeth y blaenoriaid ynghyd ryw noson i drafod y fantolen ariannol. Fe allwch ddychmygu y bu cryn fynegi barn am y gwahanol eitemau yn y gyllideb. Sylwodd rhai o aelodau'r pwyllgor fod y swm a glustnodwyd ar gyfer cenhadu yn y gymuned yn llai na'r hyn ydoedd y flwyddyn flaenorol. Aeth y dadlau ymlaen am beth amser. Yn y diwedd dyma rywun yn y cefn yn sefyll ac yn dweud wrth y person a oedd yn trafod y pwynt, 'Fachgen bach, dydych chi ddim yn sylweddoli ein bod ni yma heno i siarad <u>am</u> ein problemau, ac nid i wneud rhywbeth yn eu cylch hwy.' Ie, mae'n rhaid cydnabod ein bod wedi llwyddo'n rhyfeddol i gadw ein peirianwaith eglwysig i droi'n esmwyth yn y blynyddoedd diwethaf, ond heb ein bod wedi talu digon o sylw i'r hyn a gynhyrchwyd ganddo. Ai dyna'r prif reswm pam y mae pobl heddiw yn cadw draw o'n heglwysi, am eu bod yn credu na fydd yr hyn sy'n mynd ymlaen yno byth yn cyffwrdd â'u bywydau, byth yn cyrraedd y craciau yn ein cymunedau sy'n cael eu hollti'n ddarnau gan anghyfiawnderau cymdeithasol o bob math, byth yn gwneud yr un blewyn o wahaniaeth? Peidiwch â'm camddeall. Mae'r Eglwys yn gwneud gwaith da. Dyna lle'r ydym yn ystod yr wythnos hon yn casglu ac yn cyfrannu tuag at Gymorth Cristnogol. Mae gennym y feddyginiaeth ar gyfer holl glefydau'r byd. O leiaf yr ydym yn hawlio hynny. Eto i gyd, y

mae'r hyn y mae Cristnogion ar hyd y cenedlaethau wedi breuddwydio a gweddïo amdano ymhell o fod wedi'i wireddu. Ble mae'r heddwch, y cyfiawnder a'r cydraddoldeb cymdeithasol hynny yr ydym wedi dyheu cymaint amdanynt?

Ond dewch i ni edrych ar hyn yn ei wir oleuni. Onid yw'r Eglwys erioed wedi profi problemau a thensiynau o bob math? Wrth gwrs, mae hynny'n rhwym o ddigwydd pan fo gennych chi bobl o wahanol gefndiroedd a diddordebau yn perthyn iddi. Roedd ymraniadau yn yr Eglwys yng Nghorinth yn y ganrif gyntaf. Doedd yr aelodau ddim o'r un meddwl nac o'r un farn, ac aeth rhai i gyfraith yn erbyn ei gilydd. At hynny, cododd dadleuon yn eu plith ynghylch y dull mwyaf priodol o addoli. Do, bu'r Eglwys ar hyd y canrifoedd yn ddynol a gwan, ac yn aml yn amherffaith. Nid yw rhai pobl yn gallu deall hynny wrth gwrs. Mi wnân nhw dreulio'u bywyd yn ceisio dod o hyd i'r Eglwys berffaith. Ond dyw'r Eglwys berffaith ddim yn bod. Yn wir, fe ddywedodd rhywun, 'Os llwyddwch chi i ddod o hyd i'r Eglwys berffaith ac ymuno â hi, fydd hi ddim yn berffaith wedyn.' Digon gwir.

Mae yna stori am weinidog a ddychwelodd i'r ardal lle'r oedd yn weinidog flynyddoedd ynghynt. Dyma ddigwydd cyfarfod â Bill, a fu'n flaenor ac yn arweinydd yn un o'r eglwysi yno, ond nad oedd bellach yn rhan o'i gweithgarwch. Gofynnodd y gweinidog iddo, 'Bill, beth sy wedi digwydd? Roeddet ti'n arfer bod yn bresennol yn ddi-ffael ymhob oedfa, yn un o bileri'r achos.'

'Weinidog annwyl,' meddai Bill, 'fe gododd anghydfod yn yr eglwys a doedd pawb ohonom ddim yn barod i dderbyn y penderfyniad terfynol, ac felly aethom ati i sefydlu ein heglwys ein hunain.'

'A dyna lle'r wyt ti'n addoli nawr,' gofynnodd y gweinidog.

'Na,' atebodd Bill, 'fe wnaethon ni deimlo nad oedd rhai pobl yno yn ddigon iach yn ysbrydol, ac fe ddechreuodd carfan fechan ohonom logi neuadd y pentre er mwyn cyfarfod yno gyda'r nos.'

'Ac ydy hynny'n llwyddiant?' gofynnodd y gweinidog.

'Na, fedra i ddim dweud ei fod e,' atebodd Bill. 'Roedd Satan yn weithredol hyd yn oed yn y gymdeithas honno, felly penderfynodd fy ngwraig a minnau encilio ac addoli ar y Sul yn ein cartref ein hunain.'

'Ac felly,' meddai'r gweinidog, 'rwyt ti o'r diwedd wedi canfod yr heddwch mewnol yr oeddet ti'n chwilio amdano.'

'Ddim yn hollol,' atebodd Bill. 'Fe ddechreuodd hyd yn oed fy ngwraig goleddu syniadau athrawiaethol nad oeddwn i'n gyffyrddus â nhw, ac felly yr hyn sy'n digwydd nawr yw ei bod hi'n addoli mewn un cornel o'r ystafell fyw, a finnau mewn cornel arall.'

Gyda llaw, nid dyna'r rheswm pam yr ydw i yn Bresbyteriad a Judith yn Fedyddwraig! Mae'n wir fod gan y ddau ohonom ein corneli gwahanol yn y tŷ acw – ein stydi ein hunain, ein llyfrau ein hunain. Ond rwy'n prysuro i ddweud ein bod ni'n dal i siarad â'n gilydd, ac mae yna gydweithio mawr yn digwydd. Ac fe garwn i gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Judith am ei

hanogaeth a’i chymorth parod yn ystod blwyddyn fy llywyddiaeth. Rwy’n gwerthfawrogi hynny’n fawr iawn. Diolch i ti.

Ond beth am gyflwr yr Eglwys? At hynny rwyf am ddod. Rydw i am gyflwyno tri darlun i chi. Mi gewch chi farnu drosoch eich hun a yw’r darluniau yma’n briodol mewn perthynas â chyflwr yr Eglwys heddiw. Mae’r cyntaf yn ddrych o eglwys sydd ar fin wynebu caethglud; mae’r ail yn ddrych o eglwys sydd eisoes mewn caethglud; ac mae’r trydydd yn ddrych o eglwys ar ôl caethglud.

**Yn gyntaf, eglwys sy’n wynebu caethglud.** Go brin mai Llyfr Jeremeia yw eich hoff lyfr yn y Beibl. Neges anghysurus iawn sy gan y proffwyd. Nid ar chwarae bach y’i disgrifiwyd gan un esboniwr yn ‘broffwyd gofidiau’. Tasg anodd a diddiolch oedd ganddo, sef proffwydo barn yn erbyn ei bobl ei hun. Yn ôl Jeremeia, roedd dwyn cenedl Jwda yn gaeth i Fabilon yn rhan o fwriad Duw ac yn ddechrau proses a fyddai’n arwain at ddinistr llwyr. Mae ei broffwydoliaeth yn llawn oraclau, gweledigaethau ac eglurebau. Un darlun a geir ganddo yw’r darlun o’r crochenydd yn trin y clai. ‘Yna daeth gair yr Arglwydd ataf, “Oni allaf fi eich trafod chwi, tŷ Israel, fel y mae’r crochenydd hwn yn ei wneud â’r clai?” medd yr Arglwydd. “Fel clai yn llaw’r crochenydd, felly yr ydych chwi yn fy llaw i, tŷ Israel.” ’ (Jeremeia 18:5, 6) Wrth wylio’r crochenydd yn cydio mewn talp o glai, sylwodd Jeremeia nad oedd wedi llwyddo i lunio llestr allan ohono y tro cyntaf. Difwynwyd y clai ganddo. Ond yn hytrach na’i wrthod, aeth y crochenydd ati i osod y clai ar y droell am yr eildro a rhoi cynnig arall ar ei lunio’n llestr gwahanol.

Gan y crochenydd yr oedd y dewis beth i’w wneud. Ni allai’r clai wneud dim ynglŷn â’i dynged. Yn yr un modd, Duw sydd â’r hawl a’r awdurdod i ddifetha cenedl Israel drwy ei hanfon yn gaeth i Fabilon, neu i’w hail-lunio o’r newydd. Ond fe all y crochenydd newid ei feddwl. Os bydd i’r genedl edifarhau (ac yn wahanol i’r clai y mae gan Israel, fel pob un ohonom, yr ewyllys rydd i wneud fel y myn), fe all hynny beri i Dduw newid ei fwriad tuag ati. O ganlyniad, efallai na ddigwydd y gaethglud. Mae Duw bob amser yn barod i ymateb i wir edifeirwch: ‘Ac os bydd y genedl honno y lleferais yn ei herbyn yn troi oddi wrth ei drygioni, gallaf ailfeddwl am y drwg a fwriedais iddi.’ (Jeremeia 18:8) Y cwestiwn mawr yw hyn: a yw’n rhy hwyr i’r genedl newid ei ffordd, neu a yw’r crochenydd eisoes wedi penderfynu ail-lunio’r clai i greu llestr newydd? Fe’n hatgoffir o’r hyn a ddywed yr Apostol Paul am yr Efengyl, ei bod fel trysor mewn llestri pridd, ‘i ddangos mai eiddo Duw yw’r gallu tra rhagorol, ac nid eiddom ni’. (2 Corinthiaid 4:7) Dyma awgrym eto y gall Duw ddiddymu’r llestr pridd a llunio un newydd yn ei le, fel a bwysleisir gan Jeremeia. Gall y crochenydd dwyfol wneud fel y mae’n dewis â’i bobl.

Mae’n dilyn felly mai Duw sy’n penderfynu ym mha ffordd y mae’n ein trin ni, yr Israel newydd, heddiw. Nid ydym yn hoff o glywed hynny wrth gwrs, oherwydd y mae gennym y syniad mai ni, tra ydym yn yr hen fyd yma, sydd â’r hawl i reoli pethau. Rydym yn gallu bod yr un mor stwbwrn a hunan-ewyllysgar ag aelodau’r genedl yn nyddiau Jeremeia ac, fel hwythau, mynnwn gael yr hawl i wneud dewisiadau sy’n gallu bod yn ddinistriol i ni’n bersonol ac i’r Eglwys yn gyffredinol. Felly faint o obaith sydd i ni? Ydy pethau wedi mynd yn rhy bell arnom heddiw yng Nghymru? Ydy hi’n rhy hwyr arnom fel capelwyr, gyda’r canlyniad y bydd yn rhaid i Dduw ein hail-lunio fel y clai yn ei ddwylo? A fydd yn rhaid i’r

cyfan o'n capeli ddiflannu, a'r genhedlaeth bresennol gyda hwy, cyn y gall Duw godi dim newydd yn ei le? A fydd yn rhaid iddo ddiddymu a dinistrio'r cyfan a'n harwain i gaethglud er mwyn creu rhywbeth amgenach? Mae'n arswydus meddwl. Ond ai dyna fwriad Duw? Anodd dweud. Un peth sy'n sicr, fe all Duw newid ei fwriad. 'Os cwympant, oni chyfodant? Os try un ymaith, oni ddychwel?' (Jeremeia 8:4) Mae Duw bob amser yn barod i ymateb yn gadarnhaol os dychwel ei bobl ato. Gwyddai Jeremeia hynny. Edifeirwch radical yn unig a fedr dywys ei bobl yn ôl at Dduw.

Dyna'r darlun cyntaf yr wyf am ei gyflwyno felly, y darlun o'r Eglwys heddiw ar y groesffordd, ei thynged yn y fantol, fel clai yn llaw'r crochenydd, ac o bosib yn gorfod wynebu caethglud hir, oni bai ei bod yn barod i newid ei ffyrdd. Ond mi fyddai rhai yn dadlau fod yr Eglwys heddiw yn y byd gorllewinol eisoes yn y gaethglud. Rwy'n prysuro i ddweud nad yw hynny'n wir am yr eglwysi ar Fryniau Casia ac yn Mizoram yng ngogledd-ddwyrain yr India lle treuliais gyfnod sabothol yn ddiweddar. Dyna i chi brofiad oedd cael mynd allan i Shillong i weithio law yn llaw gyda'r gweinidogion yn yr eglwysi yno. Roedd y capeli'n llawn hyd at yr ymylon. Doedd gwrando ar bregeth awr o hyd ddim yn fwrn, fel y byddai i ni yng Nghymru. Doedd ymgynnull i addoli am 5.30 ar fore Sul y Pasg ddim yn boen ychwaith. Deunaw o weinidogion – dyna'r nifer a raddiodd o Goleg Diwinyddol John Roberts eleni. Bydd mwy yn graddio y flwyddyn nesaf. Maen nhw'n gofidio'n fawr am y dirywiad yma yng Nghymru ac yn gweddïo drosom oherwydd yma, lle gynt yr oedd yr Eglwys yn rhan ganolog a phwysig o fywyd trigolion ein gwlad, lleiafrif bychan ydym heddiw, ynghanol poblogaeth nad yw'n rhannu yr un gwerthoedd a chredoau.

**Felly, os gwir hyn, pa ddarlun sy gennym yn y Beibl o eglwys mewn caethglud?** Dewch i ni symud ymlaen ychydig mewn hanes a throi at ran o'r Ysgrythur a ysgrifennwyd mewn caethglud, ac am gaethglud, sef Llyfr Eseciel. Roedd Eseciel ymhlith y fintai gyntaf o alltudion a ddygwyd yn gaeth i Fabilon yn y flwyddyn 597 CC. Trigai mewn tŷ bychan syml, wedi'i adeiladu o feini pridd, ar y gwastadedd yn Tel Abib, bryncyn y ffynnon, ger y brodwaith o gamlesi a gynlluniwyd gan beirianwyr Babilon rhwng afonydd Tigris ac Ewffrates. Yn fynych roedd y proffwyd wedi dyheu am ddyfodol newydd i'w bobl, ac yng nghanol y llygredd o'i gwmpas fe gafodd y proffwyd weledigaeth ysgytwol iawn: 'Daeth llaw yr Arglwydd arnaf, ac aeth â mi allan trwy ysbryd yr Arglwydd a'm gosod yng nghanol dyffryn a oedd yn llawn esgyrn.' (Eseciel 37:1)

Diau y cawsom i gyd y profiad rywbryd neu'i gilydd o fod yn nyffryn yr esgyrn sychion, ac am hynny gallwn werthfawrogi'r darlun iasoer a gyflwynir i ni gan y proffwyd. Nid yw'r dyffryn yn lle dymunol na phrydferth. Sbotyn isel yw e, ardal ddirwasgedig wedi'i chau i fewn gan y bryniau uchel o'i chwmpas. Mae'n llawn esgyrn a berthynai ar un adeg i dadau a mamau hoff, meibion a merched mwyn, unigolion o gig a gwaed, pobl a hoffai chwerthin a gobeithio. Ond erbyn hyn, collwyd cynifer o fywydau, bu cymaint o ddigalondid a siomedigaethau, dinistr a methiant, fel nad oes modd adnabod yr esgyrn, na gwybod ychwaith i bwy y maent yn perthyn. Dyna i chi ddarlun o gyflafan neu holocost os bu un erioed. A rhag ofn bod unrhyw obaith i'r lladdedigion yma, cafodd y proffwyd ei arwain o amgylch y dyffryn er mwyn iddo gael gweld y cyfan drosto'i hun. Ac ar ôl gorffen ei daith daeth Eseciel i'r casgliad nad oedd unrhyw fywyd yn yr esgyrn, a'u bod yn gwbl sychion.

Roedd y genedl i bob pwrpas wedi peidio â bod. Diwedd y stori. Amser i alaru a symud ymlaen.

Ond, a bod yn onest, doedd cyflwr yr alltudion ym Mabilon ddim mor wael â hynny. Eto i gyd, mewn caethglud yr oeddent. Ac fe olygai hynny y byddai'n rhaid iddynt ymarfer eu ffydd mewn gwlad ddieithr. Ond yn y weledigaeth a gafodd Eseciel daeth yr anadl i'r dyffryn. Cysurwyd y genedl. Rhagfynegwyd adferiad y wlad. Byddai Duw yn rhoi calon newydd yn ei bobl. Ond yr hyn sy'n bwysig i'w gofio yw pam y bu i Dduw weithredu fel y gwnaeth, pam y bu iddo ddwyn gobaith i eneidiau digalon a thrist a'u hachub o gaethiwed? Yn sicr, nid oherwydd enw da ei bobl. Gweithredodd Duw ym Mabilon, ac mae'n parhau i weithredu yn yr un modd heddiw, oherwydd mai 'Duw sanctaidd ydyw' (Dr Walter Brueggemann, *Hopeful Imagination: Prophetic Voices in Exile*). Duw, ac nid ni ein hunain, yw'r gonglfaen y saif popeth arno. Ond ai fel hynny y mae'r Eglwys yn ei gweld hi heddiw? Beth sy bwysicaf? Ai Duw ynteu ni? Ofnaf ein bod yn dueddol o feddwl am weithgareddau'r Eglwys yn ôl yr hyn yr hyn sy orau i **ni**, ac nid Duw. Wrth gwrs y mae yna faterion da a chlodwiw sy'n haeddu'n sylw. Ond ni ddylem fyth anghofio pam rydym yn brysur, ac ar ran pwy yr ydym yn brysur. Nid sefydliad seciwlar mo'r Eglwys. Cafodd ei sefydlu ar sail ei pherthynas â Duw, drwy ein Harglwydd Iesu Grist. Yn ei gyfrol, *Christian Theology for a Secular Society: Singing the Lord's Song in a Strange Land*, dywed yr awdur Dr Mark G Mckim:

> Having defined the church in terms of our involvement and activity (instead of God), we find ourselves … on a merciless treadmill of activity. Perhaps this explains why churches find it difficult to win the interest … (of those) who already have frantically busy lives … the church seems to offer nothing different from what may be found in a thousand other … organizations or good cause. The one thing which makes the church different … a powerful sense of a relationship with God in Christ – is not very obvious.

Fel pobl Jwda gynt, rydym yn dueddol o anghofio mai pobl Dduw ydym. Dylai pob gweithgarwch o fewn yr Eglwys, fel yn wir ein bywyd oll, fod yn gysylltiedig â Duw ac nid â ni ein hunain. Ac os digwydd hynny dyna, yn ôl Dr Mark Mckim, yw gwir gaethiwed. Rydym yn ystyried fod yr Eglwys mewn caethiwed pan mae hi'n gaeth i bethau'r byd. Ond ystyriwch hefyd y cysyniad o'r Eglwys mewn caethiwed pan fydd ei haelodau wedi'u neilltuo i Dduw ac yn cael eu puro a'u glanhau ganddo'n barhaus. Yr un egwyddor oedd gan Iesu: 'Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes bob dydd a'm canlyn i. Oherwydd pwy bynnag a fyn gadw ei fywyd, fe'i cyll, ond pwy bynnag a gyll ei fywyd er fy mwyn i, fe'i ceidw.' (Luc 9:24) Onid yw bod yn alltud yn rhywbeth i'w chwennych, dywedwch?

**Mae yna ddarlun arall yr wyf am ei gyflwyno, sef eglwys ôl-gaethglud.** Parhaodd y gaethglud ym Mabilon am 58 o flynyddoedd, ond yna yn y flwyddyn 539 CC concrwyd Babilon gan luoedd Cyrus, brenin Persia, a'i orchymyn cyntaf oedd hyn: 'Gollyngwch yr alltudion yn rhydd.' Nid pawb a fanteisiodd ar eu rhyddid ond pan ddychwelodd y cwmni cyntaf o alltudion i'w gwlad dan arweiniad Sorobabel yn 538, gwelsant ar unwaith fod pob dim yn anhrefn llwyr. Bu'n rhaid adfer ac ailadeiladu; a'r peth cyntaf a wnaethant oedd mynd ati'n frwd i ailgodi'r deml a ddinistriwyd gan fyddinoedd Nebuchadnesar yn 587. Ond yn fuan iawn darfu'r gweithio oherwydd gwrthwynebiad a digalondid. Am flynyddoedd ni

wnaed dim. Er hynny, ar y Saboth, deuai minteioedd o Iddewon ffyddlon ynghyd i addoli Duw o gylch cragen gweddillion eu teml.

Aeth deunaw mlynedd heibio a'r deml yn dal heb ei chwblhau. Yna, tua 520, ymddangosodd proffwyd o'r enw Haggai. Dechreuodd ar ei waith yn union fel y dylai pob arweinydd ei wneud – fe ofynnodd gwestiynau: 'Esgusodwch fi, ond pam nad yw'r deml hon wedi'i chwblhau? Dydw i ddim yn deall.'

'Wel,' atebodd y bobl, 'mae pethau'n gostus; mae pethau'n ddrud. A rhaid oedd i ni godi tai ar ein cyfer ein hunain a sicrhau bod ein teuluoedd yn gyffyrddus; a rhaid oedd aredig ein caeau …'

'Ond mae deunaw mlynedd wedi mynd heibio,' atebodd Haggai.

Mae yn llyfr bach Haggai ddameg sy'n berthnasol i bob cyfnod, ac mae'n ddameg sy'n ymwneud â bywydau pobl yn gyffredinol – eu ffydd, eu blaenoriaethau, eu diffyg hymroddiad, a'u hymwneud â sefydliad sy'n glogyrnaidd a herciog. Roedd y gwaith o ailgodi'r deml i fod yn symbol o ymroddiad pobl Dduw. Diau y cawsent seremoni rwysgfawr i nodi cychwyn y fenter, ond dyna cyn belled ag yr aethant. Ni chwblhawyd y gwaith. Roedd eu blaenoriaethau'n anghywir, gyda phob un yn meddwl amdano'i hun a'i bethau. Esgeuluswyd Duw. Mae ffydd bob amser yn gostus, ac mae hefyd yn gallu bod yn anodd.

Beth am yr Eglwys heddiw? Ydyn ni'n gweld ein hunain yn y ddameg? Does dim angen dweud fod digalondid yn rhemp yn y Gymru gyfoes, er gwaethaf pob ewyllys da o'n heiddo. Gwyddom pa mor gostus yw cynnal ein hadeiladau. Ac mae llawer o'n haelodau'n teimlo mai'r unig beth y gallant ei wneud o dan yr amgylchiadau yw rhoi'r ffidil yn y to. Rhaid cydnabod hefyd fod yna ddifaterwch mawr ynglŷn â'n hymroddiad i'r Achos, yn arbennig ein ffyddlondeb a'n teyrngarwch, er bod yna weddill ffyddlon yn ymgasglu o hyd i addoli Duw mewn 'cragen o deml' ar y Sul. Ac un peth arall, nid yw pobl heddiw, fel yn nyddiau Haggai efallai, yn gweld unrhyw ddyfodol i'r eglwys, a gall hynny hefyd ei gwanhau a lladd pob brwdfrydedd o'i mewn. Fe ddywed arbenigwyr y ceir patrwm arbennig yn natblygiad pob eglwys. Y duedd yw i eglwysi symud o'r hyn a elwir yn *risktaking* i fod yn *caretaking* ac yna, yn y pen draw, i fod yn *undertaking*. Pan fo eglwys yn ifanc, ac yn dechrau ar ei gwaith, mae'n llawn brwdfrydedd ac yn barod i anturio a chymryd pob math o risgs er mwyn tyfu. *Risktaking!* Yn ei chanol oed, ni fydd yr eglwys ond yn gofalu am yr hyn sy ganddi. Cadw pethau i fynd! Faint o weithiau y clywsom y geiriau hynny? *Caretaking!* Yna, yn ei henaint, estynnir galwad i ymgymerwr o weinidog efallai i fugeilio'r eglwys, os hynny hefyd, nes y bydd hi'n marw oherwydd prinder aelodau. *Undertaking!*

Siaradodd Haggai wrth sefydliad a oedd yn friwedig a digalon. Gofynnodd, 'Ai amser yw i chwi eich hunain fyw yn eich tai moethus, a'r tŷ hwn yn adfeilion?' (Haggai 1:4) A dyma'r proffwyd yn rhoi her iddynt. Teirgwaith y dywedodd wrthynt, 'Ymgryfhewch.' Yr hyn a olygai Haggai oedd 'ymgryfhewch yn ysbrydol'. *Take courage!* Fe allwch chi gwblhau'r dasg. Mae ymgryfhau yn golygu bod yn fentrus a bod yn barod i gymryd risgs. Fe ddywedodd Haggai un peth arall hefyd wrth y bobl. Ewch ati i weithio. Adeiladwch deml ynghanol eich bywydau lle gall Duw breswylio ynddi. Rhaid i waith Duw fod yn ganolbwynt i'ch bywyd. A chofiwch ei addewid y bydd Ef gyda chwi, 'Y mae fy ysbryd yn aros yn eich plith; peidiwch ag ofni.'

(Haggai 2:5) Yr un oedd addewid Iesu i'w ddisgyblion wedi'i atgyfodiad, 'Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.' (Mathew 28:20) Deffrôdd geiriau Haggai gydwybod y genedl ac ymhen tair wythnos, ailddechreuwyd y gwaith ar y deml.

Felly ble mae'r Eglwys yn sefyll ar hyn o bryd, yn arbennig y gangen o'r eglwys fyd-eang yr ydym yn perthyn iddi – Eglwys Bresbyteraidd Cymru? Cyn y gaethglud, ynghanol y gaethglud, neu wedi'r gaethglud? Anodd dweud. Gallaf weld ei chyflwr trist ymhob un o'r tair sefyllfa a ddarluniwyd. Un peth sy'n sicr, y mae yna ffordd o waredigaeth ac fe'i hagorwyd ar y pren. Yn Iesu Grist, dewisodd Duw ddod i'n plith. Meddyliwch o ddifrif: Duw wedi dewis byw fel alltud. Oherwydd dyna pwy oedd Iesu. A thrwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad, agorodd ffordd o'r ddaear hyd y nef. Bydded i ni gofio mai Ef yw ein Harglwydd, pen mawr yr Eglwys, a'r Un sy'n ein galw adref:

> Arglwydd, arwain drwy'r anialwch
>   fi, bererin gwael ei wedd,
> nad oes ynof nerth na bywyd,
>   fel yn gorwedd yn y bedd:
>     hollalluog
>   ydyw'r Un a'm cwyd i'r lan.